



Cyngor Bwrdeisdref Sirol

**Blaenau Gwent**

County Borough Council

# **Datganiad Seibiannau Byr ar gyfer Plant Anabl**

**Eich helpu i wneud y dewis cywir**



## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn darparu amrediad o wasanaethau a all roi seibiant byr ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anableddau. Caiff rhai gwasanaethau eu darparu'n uniongyrchol gan y gwasanaeth Addysg, Gwasanaethau Plant, Chwaraeon a Hamdden, Gwasanaethau Ieuentid neu drwy bartneriaethau gyda sefydliadau eraill fel Barnado's. Mae ein Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc hefyd yn ariannu amrediad o wasanaethau ar gyfer plant anabl fel rhan o'u gwaith Teuluoedd y Gyntaf.

Canllaw yn unig yw'r datganiad hwn a gellir cael mwy o wybodaeth am wasanaethau drwy ddefnyddio'r wybodaeth cyswllt ar y diwedd.

**Barnardo's is an excellent service with great support workers.**

## Beth yw Seibiant Byr?

Mae seibiant byr yn rhoi hoe i rieni a gofalwyr sydd â phlant a phobl ifanc sydd ag anableddau. Gall seibiant barhau am ychydig oriau yn y dydd neu aros dros nos. Mae amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynnwys gwasanaethau ar ôl ysgol, chwarae yn y gymuned, chwaraeon a hamdden.

## Ar gyfer pwy mae Seibiant Byr?

Plant a phobl ifanc rhwng 0 a 17 oed gydag anableddau i'w galluogi i:

- Fwynhau amser hwyliog a chadarnhaol i ffwrdd o'u rhieni a'u gofalwyr.
- Datblygu cyfeillgarwch a chymdeithasu.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau cynhwysol gyda phlant heb fod yn anabl.
- Datblygu sgiliau a galluoedd newydd.

Rhieni a gofalwyr gyda chyfrifoldebau gofalu am blant a phobl ifanc 0 i 18 oed. Dylai'r amrediad gwasanaethau ddarparu:

- Dewis.
- Hyblygrwydd.
- Hyder.

## Pwy sy'n gymwys am Seibiant Byr?

Gall unrhyw riant neu ofalwr sydd â phlentyn gydag anabledd sy'n byw ym Mwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent gael mynediad i un neu fwy o wasanaethau yn dibynnu ar anghenion eu plentyn a'u gallu i'w cyflawni.

Heblaw am y gwasanaethau cyffredinol, bydd y rhan fwyaf o wasanaethau yn cynnal asesiad fel y gallant wneud yn siŵr ei fod yn iawn ar gyfer y plentyn ac yn



cefnogi eu hanghenion. Mae'r siart dilynol yn ganllaw i ddangos y tair 3 haen o wasanaethau sydd ar gael:

Lefel	Asesiad	Enghraifft o Wasanaeth
Lefel 1 Cyffredinol - ar gael i bawb	Dim angen asesiad. Gall rhiant neu ofalwr ofyn am wasanaeth drwy ffonio neu fynd draw.	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu</li> <li>■ Cybiau, Brownies, Sgowtiaid, Geidiaid</li> <li>■ Cylchoedd Chwarae, Gwarchodwyr Plant, Meithrinfeydd Dydd, Clybiau Allan o'r Ysgol</li> <li>■ Gweithgareddau ieuencid</li> <li>■ Clybiau chwaraeon a hamdden</li> <li>■ Gwasanaethau Chwaraeon Anabledd</li> </ul>
Lefel 2 Wedi'u targedu i helpu cyflawni eu hanghenion	Cynhelir asesiad byr gan y sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth. Gall rhieni a gofalwyr ofyn i swyddog eu hatgyfeirio.	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Dechrau'n Deg</li> <li>■ Teuluoedd yn Gyntaf</li> <li>■ Lleoedd â Gynorthwyr</li> <li>■ Cynllun Atgyfeirio Blynnyddoedd Cynnar</li> </ul>
Level 3 More specialised services	ACynhelir asesiad hirach gan y Tîm Plant gydag Anabledd, fydd yn edrych ar seibiant a gweld os oes pethau eraill a all helpu teulu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Cynllun Hamdden â Chymorth</li> <li>■ Gwasanaeth seibiant gofal maeth yn y teulu e.e. Gofalwyr cyswllt teuluol</li> <li>■ Gwasanaeth maeth gofalwr wrth gefn</li> <li>■ Taliadau Uniongyrchol</li> </ul>

Bydd y rhan fwyaf o wasanaethau y sonnir amdanynt yn y datganiad yn seiliedig ar asesiad o anghenion plentyn i sicrhau ei fod yn rhoi'r cymorth gorau i'r plentyn ac yn eu helpu i ddatblygu gan roi cyfle i rieni a gofalwyr gael seibiant. Cyn belled â bod gan blentyn weithiwr cymdeithasol, bydd gan rieni a gofalwyr hawl i'w hasesiad eu hunain (asesiad gofalwyr) fydd yn helpu'r gweithiwr cymdeithasol i ddeall lefel a maint y gofal y maent yn ei ddarparu.

## Pa fath o Seibiant Byr sydd ar gael?

Mae llawer o wasanaethau sy'n darparu seibiant byr ar gyfer plant gydag anableddau a'u rhieni, gan gynnwys:

### Gwasanaethau Cymunedol

Gwasanaethau agos at gartref y plentyn a'r teulu megis: Sgowtiaid, Geidiaid, clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau ieuencid, clybiau chwaraeon, cylchoedd chwarae, chwarae gwyliau a gwasanaethau cymorth teulu.

### Chwaraeon Anabledd

Chwaraeon Anabledd Amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden sydd ar gael i blant ag anableddau a defnyddio canolfannau hamdden ar draws Blaenau Gwent. Chris Garrett yw'r Swyddog Chwaraeon Anabledd gyfer Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ac yn cynnal llawer o weithgareddau yn ystod yr wythnos, penwythnos a gwyliau ysgol. Gellir cysylltu ag ef ar (01495) 353394 neu e-bostiwch: [chris.garrett@aneurinleisure.org.uk](mailto:chris.garrett@aneurinleisure.org.uk)



**Doedd dim modd  
bod yn hapusach  
gyda Chefnogaeth  
gan Hamdden. Mae'n  
cynorthwyo hyder  
ac annibyniaeth fy  
mhlentyn.**

## **Cynllun Atgyfeirio Anghenion Ychwanegol**

Mae'r Cynllun Atgyfeirio Anghenion Ychwanegol ar gael i gefnogi plant sydd â chyflwr sy'n dod i'r amlwg neu sydd wedi cael diagnosis i fynychu lleoliad cyn-ysgol ochr yn ochr â'u cyfoedion. Gellir cynnig cymorth mewn nifer o ffyrdd i alluogi'r plentyn i gymryd rhan mewn profiad cyn-ysgol o ansawdd.

## **Goral Plany Tu Allan i'r Ysgol**

Ledled y fwrdeistref mae clybiau cyn ysgol, ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau ar gyfer plant oedran ysgol sy'n cynnig gofal plant y tu allan i'r diwrnod ysgol. Am wybodaeth fanylach cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar radffôn 08000 32 33 39. [www.blaenau-gwent.gov.uk/5593.asp](http://www.blaenau-gwent.gov.uk/5593.asp)

## **Teuluoedd yn Gyntaf**

Ariennir y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru i helpu teuluoedd sy'n wynebu anawsterau. Mae'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig gwahanol fathau o gymorth yn dibynnu ar beth yw'r anghenion. Bydd angen llawer o gymorth ar broblemau cymhleth; fodd bynnag, efallai y bydd angen help ar rai teuluoedd i oresgyn problemau llai i'w hatal rhag gwaethygu.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth i deuluoedd plant a phobl ifanc anabl. Mae elfen anabledd Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys tîm arbenigol sy'n ymgysylltu â theuluoedd plant anabl sydd angen cymorth ac yn cynnal asesiadau ar eu cyfer. Mae'r tîm Anabledd Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio fel rhan o'r 'Hybiau Cymunedol' sy'n cynnig pecynnau Tîm o Amgylch y Teulu sy'n defnyddio arbenigedd a chyfranogiad o bob math o wasanaethau a allai fod yn gysylltiedig â'ch teulu e.e. ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol.

Yn ogystal, mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn cefnogi plant i gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant drwy 'Gynllun Lleoedd â Chymorth'. Nid yw diagnosis yn ofyniad i gael mynediad i'r gwasanaeth. Hoeser, mae angen asesiad o gymhwysedd. Mae'r Cynllun yn darparu cymorth ariannol tuag at gost gofal plant i blant a phobl ifan anabl. Mae'r cynllun Lleoedd â Chymorth yn agored i bob teulu o blant ag anabledd drwy ffurflen gais syml am wasanaethau. Gall aelod o'r Tîm Anabledd Teuluoedd yn Gyntaf roi cymorth i lenwi'r ffurflen hon gyda'ch teulu.

Mae'r lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaeth yn cael eu cefnogi gyda mynediad at yr hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau'r profiad gorau i bob plentyn. Gellir darparu cymorth ychwanegol i deuluoedd drwy gyfarfodydd anffurfiol i rieni a gofalwyr. Mae hyn yn rhoi amser i gymdeithasu â chyfoedion a chael mwy o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael iddynt yn ogystal â chael llais ynglŷn â'u gwasanaethau.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Teuluoedd yn Gyntaf, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: 08000 32 33 39 neu [fis@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:fis@blaenau-gwent.gov.uk)



## Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu

Nod y Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu yw darparu gwasanaeth cyfrinachol a diduedd yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac amrediad cyfan o wasanaethau'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae gwybodaeth gyfredol yn ymwneud â:

- Chwarae
  - Gofal plant
  - Clybiau ieuentid
  - Rhianta
- 
- Ysgolion
  - Chwaraeon a hamdden
  - Gwasanaethau iechyd
  - Gwasanaethau cymorth eraill

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ffoniwch rhadffon 08000 32 33 339.  
[www.blaenau-gwent.gov.uk/5593.asp](http://www.blaenau-gwent.gov.uk/5593.asp)

## Gwasanaethau Ieuentid

Mae gwasanaethau ieuentid ym Mwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau ac yn amrywio o glybiau i weithgareddau hamdden. Gellir cysylltu â hwy drwy ffonio (01495) 355811. Mae manylion hefyd ar gael yn [www.blaenau-gwent.gov.uk/leisure/16797.asp](http://www.blaenau-gwent.gov.uk/leisure/16797.asp)

## Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi datblygiad iaith, datblygiad gwybyddol, datblygiad cymdeithasol ac amgylcheddol, iechyd corfforol a dynodi anghenion uchel ar gam cynnar ar gyfer plant 0-3 oed.

Mae gan blant cymwys hawl i gael darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg am ddim y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn ddwyflwydd. Mae'r tîm Dechrau'n Deg yn cynnwys ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth teulu, gweithwyr cefnogi rhianta, gweithwyr cymorth iaith gynnar i'ch cefnogi chi a'ch plentyn.

Ffoniwch 08000 32 33 39 i ganfod os ydych yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg.

**Mae hyder  
fy mab wedi  
gwella'n fawr.**





## Hamdden â Chymorth

Gwasanaeth hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc i wneud gweithgareddau o'u dewis hwy o fewn y gymuned neu i gael eu hintegreiddio i weithgaredd o'u dewis hwy. Darperir y gwasanaeth gan Barnado's ar ran Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent a medrir atgyfeirio plant i'r gwasanaeth yn dilyn asesiad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol..

## Gofal Maeth Dolen Teulu

Seibiant dros nos neu yn ystod y dydd ar gyfer plentyn gyda gofalwr maeth yn y gymuned - eto'n dilyn asesiad sy'n dynodi hynny fel angen.

## Gwasanaeth Gofalwyr Maeth wrth Gefn

Seibiant dros nos ar gyfer plant a phobl ifanc mewn tŷ gydag amrywiaeth o addasiadau.

Mae gan bob plentyn wahanol anghenion ac mae'n aml yn syniad da i ffonio gwasanaeth a siarad am yr hyn y gall gwasanaeth ei gynnig ac os yw'n addas ar eich cyfer chi a'ch plentyn.

## Taliadau Uniongyrchol

Lle cynhaliwyd asesiad gan y Tîm Plant gydag Anableddau ac y cytunwyd fod plentyn neu berson ifanc anabl yn gymwys am wasanaeth, un opsiwn ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwnnw fyddai drwy ddarparu taliad uniongyrchol i'r teulu. Byddid yn cytuno pa wasanaeth oedd ei angen a'r hyn y dylai ei gyflawni i'r plentyn. Byddai gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn cynnal adolygiadau cyson i sicrhau fod y gwasanaeth yr oedd y teulu yn ei brynu gyda'r taliad uniongyrchol yn ateb anghenion y plentyn neu berson ifanc.

Ar ôl cytuno ar daliad uniongyrchol, mae teuluoedd yn cytuno i rywun wneud y gwaith gyda'u mab neu ferch.

Gallai hyn fod yn ofalwr yn dod i'r cartref neu gallai fod yn rhywun sy'n mynd â'r person ifanc o amgylch. Os cytunir ar daliad uniongyrchol, medrir rhoi cymorth i helpu'r teulu i drin y broses honno. Gall y Tîm Plant gydag Anableddau roi gwybodaeth am hyn.

**Mae'r Prosiect Gofalwyr Wrth Gefn yn hanfodol nid yn unig i les fy mab ond i'm merch sy'n aml yn cael ei gwthio i'r ochr.**

**Roedd fy mhentyn mor hapus ac yn mwynhau mynd i seibiant.**

## Sut mae gofyn an Seibiant Byr?

### Cyswllt ac Atgyfeirio

Os oes anabledd gan eich plentyn, gallwch ofyn am help drwy ffonio'r tîm atgyfeirio dyletswydd yn Cyswllt Blaenau Gwent (C2BG) ar (01495) 315700.

Byddant yn gofyn i chi am wybodaeth am eich plentyn a'ch amgylchiadau i weld os ydych yn gymwys am asesiad. Os nad ydych yn gymwys, bydd y person ar ben arall y ffôn yn rhoi gwybodaeth i chi ac yn dweud wrthy ch am wasanaethau eraill a alail efallai helpu yn cynnwys manylion cyswllt.

### Tîm Plant gydag Anabledau

The Children With Disabilities Team provides a social work service to disabled children and their families that includes assessment, planning, support, information and short break services. There is also an Occupational Therapy service within the team for children needing help to access all parts of their home and to be able to get out and about. The manager Matthew Lawrence and the team can be contacted on (01495) 356014 or e-mail: [nicola.williams@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:nicola.williams@blaenau-gwent.gov.uk)

## Gwasanaethau eraill a all fod yn ddefnyddiol

### Gwasanaethau Trydydd Sector

Mae cyfeiriadur o wasanaethau ar gael gan y trydydd sector (sector gwirfoddol) ar gael yn: [www.blaenau-gwent.gov.uk/health/5359.asp](http://www.blaenau-gwent.gov.uk/health/5359.asp)

### Cyswllt Teulu Cymru

Rhadffôn 0808 8883555

E-bost: [wales.office@cafamily.org.uk](mailto:wales.office@cafamily.org.uk)



## Am y Datganiad yma

Hoffai Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent fynegi eu diolch am yr help a'r cymorth wrth ddatblygu'r datganiad hwn a roddwyd gan rieni sydd â phlant anabl eu hunain. Nid yw'r amserlen wedi caniatáu'r ystod cyfranogiad y byddem wedi ei hoffi ond caiff y datganiad ei adolygu mewn blwyddyn.

Nododd themâu cyffredin mai ychydig o gymorth sydd ar gael i bobl ifanc yn eu harddegau sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r adran yn ymdrechu i'w wella ac yn gobeithio y bydd hyn yn newid dros y 12 mis nesaf. Roedd y rhan fwyaf o'r adborth a gawsom yn gadarnhaol iawn, yn enwedig o ran y prosiect gofalmwr wrth gefn a Chymorth Barnardo's gyda Hamdden. Daw'r holl Ddyfynbrisiau a ddefnyddir yn y datganiad hwn o'r holiaduron ymgynghori diweddaraf.

Hoffem hefyd glywed gan rieni eraill am y datganiad a sut y gellir ei wella.

**Anfonwch sylwadau os gwelwch yn dda at:**

**Sally Indge  
Gwasanaethau Plant  
Canolfan Adnoddau Teulu  
Heol Beaufort  
Glynebwy  
NP23 5HL**

**E-bost: [sally.indge@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:sally.indge@blaenau-gwent.gov.uk)**

**Ffôn: (01495) 355760**



**Ionawr 2016**